SUT GALL IEUENCTID YMDOPI AG ARGYFWNG HEDDIW?

Nodyn i'r siaradwr:
Gan gydnabod her y sefyllfaoedd anodd mae ieuenctid yn ei hwynebu, apeliwch at y rhieni yn y gynulleidfa i gyflawni eu cyfrifoldeb i addysgu eu plant mewn ffordd dduwiol. Dangoswch i'r ieuenctid sy'n bresennol sut i ymdopi â bywyd yn y drefn sydd ohoni, gan bwysleisio yr elw o fyw yn ôl safonau Duw

IEUENCTID HEDDIW YN WYNEBU AMSER O ARGYFWNG—EU DYFODOL MEWN ENBYDRWYDD (4 mun.)

'Rydym yn byw mewn cyfnod tyngedfennol, y gellir ei gymharu â throbwynt er gwell neu waeth yn hanes claf gwael iawn (2Bren 20:1, 2)

Adlewyrchir yr argyfwng gan y defnydd a wna ieuenctid o gyffuriau, hunanladdiadau, anfoesoldeb rhywiol, afiechydon a drosglwyddir yn rhywiol, trais (Nodwch ystadegau cyfredol neu enghreifftiau byr; gweler *Index* o dan *"Youths"*)

Beth wnewch chi—troi er gwell neu er gwaeth?

Hyd yn oed os nad ydych yn ifanc, sut credwch chi y gall ieuenctid sicrhau dyfodol hapus?

PAM MAE'R ARGYFWNG HWN YN BOD HEDDIW (10 mun.)

Methiant bywyd teuluol yn brif ffactor yn yr argyfwng

Llawer o rieni yn methu treulio amser digonol gyda'u plant (*g*93 5/22 16-17)

"Canfu astudiaeth ddiweddar gan Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol Prifysgol Michigan fod mamau sy'n gweithio yn treulio cyfartaledd o 11 munud y dydd o amser o ansawdd (h.y. amser arbennig yn chwarae neu ddysgu) gyda'u plant yn ystod dyddiau'r wythnos a thua 30 munud y dydd dros y Sul. Tua 8 munud o amser o ansawdd a dreulia tadau gyda'u plant ar ddyddiau'r wythnos a 14 munud dros y Sul. Fe dreulia mamau nad ydynt yn gweithio 13 munud y dydd o amser o ansawdd gyda'u plant" (*U.S.News & World Report,* Hydref 27, 1986)

Efallai fod diffyg argyhoeddiadau moesol cadarn yn y rhieni, gan fethu darparu llawer o ddisgyblaeth na chyfarwyddyd iach (1Cor 14:8)

Yn aml mae plentyndod normal yn ddiffygiol oherwydd i'r rhieni sbwylio'u plant (*g*85 7/22 28)

Mae maldodi ieuenctid yn sicrhau canlyniadau drwg (Diar 29:21; *g*87 2/8 20)

Mae diffyg moesoldeb a moeseg yn perthyn i lawer o addysg ac amgylchfyd heddiw

I lawer mae llwyddiant yn gyfystyr ag eiddo materol neu safle cymdeithasol

Cyflwynir anfoesoldeb rhywiol, gwrywgydiaeth, ac yn y blaen, yn bethau derbyniol

Mae pobl blaenllaw yn y byd sy'n fflawntio anfoesoldeb neu yn ei hyrwyddo, yn amharchu awdurdod a safonau byw traddodiadol

Dylanwad y teledu a cherddoriaeth ar ieuenctid yn ffactor mawr yn argyfwng heddiw

Mae llawer ohono yn glamoreiddio trais, rhyw, difrawder at ddioddefaint

Mewn llawer gwlad, erbyn i lanc(es) gyrraedd 18 oed, bydd wedi gwylio miloedd o lofruddiaethau, ymosodiadau rhywiol treisiol, a throseddau eraill ar y teledu

Tuedda hyn i ddadsensiteiddio a bwystfileiddio ieuenctid heddiw

Ffactorau eraill sy'n cyfrannu yw tlodi, anobaith, cyfyng gyngor

Rhoddir y rhesymau sylfaenol am yr argyfwng yn y Beibl

Prif reswm yw ein bod ni yn y dyddiau diwethaf, amser y diwedd (Mth 24:3-8)

Rhagfynegodd Paul sut yr effeithiai'r dyddiau diwethaf ar bobl, gan gynnwys ieuenctid (2Tim 3:1-5)

Mae'n crybwyll y rheswm allweddol am yr argyfwng: oedolion, ieuenctid yn gwadu grym ymroddiad duwiolfrydig oherwydd diffyg ofni Jehofah

Canlyniad gwir ymroddiad duwiolfrydig yw ufuddhau i Dduw; canlyniad gwadu ei grym hi yw anufudd-dod (Tit 1:16)

Yn hen neu yn ifanc, ydych chi'n cytuno mai'r ffactorau hyn sy'n cynhyrchu argyfwng heddiw?

O dderbyn fod yr argyfwng yn bod, beth fedrwch chi ei wneud yn ei gylch?

BYDD ESIAMPL A HYFFORDDIANT RHIENI YN HELP I IEUENCTID YMDOPI (12 mun.)

I fod yn effeithiol, rhaid i esiampl rhieni fod yn gyson â dysgeidiaeth Gristnogol

Dylai rhieni ddangos i blant fod cariad at Dduw yn flaenaf yn eu bywydau (Deut 6:5, 6; Mth 22:37, 38)

I wneud hyn, dylai rhieni fod yn fodlon ymddarostwng i awdurdod Duw a safonau'r Beibl

Er enghraifft, ceisio Teyrnas Dduw a'i gyfiawnder yn gyntaf (Mth 6:33)

Mae gofyn i rieni adael i'w plant weld y nodweddion ynddynt a welodd Timotheus yn ei fam a'i nain (2Tim 1:5; 3:14)

Mae gofyn ymdrech i rieni ddal ar eu cyfle i dreulio amser gyda'u plant

Mae'n golygu mwy na dim ond bod yn eu presenoldeb; rhaid i rieni gyfathrebu neu gydymweithio'n effeithiol â nhw

Mae rhoi amser cyson heibio i wrando, siarad, chwarae yn hanfodol, yn creu cyfleon cyfathrebu (Deut 6:7)

Ymdrechwch ddatblygu rhaglen astudio ddiddorol y gellir ei mwynhau (*w*92 10/15 16-18)

Mae'n hanfodol treulio amser adloniant buddiol mae'r plant yn ei fwynhau

Hyfforddiant yw'r nod, sy'n meithrin meddylfryd Jehofah yn y plant trwy addysg ac athrawiaeth (Eff 6:4)

Golyga fwy na dim ond rhoi gwybodaeth; mae angen hyfforddi ewyllys ac anian plentyn yn y ffyrdd iawn (*w*93 5/15 18-19)

Bydd rhieni gwir gariadus yn poeni mwy am sicrhau ymroddiad duwiolfrydig nag am addysg seciwlar a llwyddiant materol eu plant (In 17:3)

IEUENCTID, YMDOPWCH Â'R ARGYFWNG DRWY ARFER YMDDYGIAD DUWIOLFRYDIG (15 mun.)

I ymdopi'n llwyddiannus, mae'n hanfodol 'nabod y gelyn a gwrthsefyll ei ymdrechion

Satan yw'r gelyn pennaf, a'r holl fyd yn ei afael (1In 5:19)

Amcan y Diafol yw eich troi chi a'ch dieithrio oddi wrth Jehofah neu i'ch cael chi i wneud pethau y bydd Ef yn eu hanghymeradwyo

Peidiwch â beio'ch rhieni am y byd drwg y'ch ganed chi iddo

Mae mwyafrif y ddynoliaeth mewn cyflwr o anghymeradwyaeth (Mth 7:13, 14)

'Nawr medir cynhaeaf didostur (Gal 6:7; cyfeiriwch at yr ystadegau a roddwyd ynghynt)

Mae angen ichwi wrthsefyll Satan drwy arfer ymroddiad duwiolfrydig

Bydded ynoch y rhuddin moesol a'r dewrder i ffoi oddi wrth anfoesoldeb rhywiol (1Cor 6:18)

Gwrthodwch gamarfer cyffuriau gan ddweud NA fel gwnaeth Iesu (Mc 15:23; *g*85 3/8 16-18)

Medwch gynhaeaf gwahanol—gwobrau goludog—drwy fod yn flaengar yn gwneud ewyllys Duw (1In 2:17)

Mae Jehofah yn cynnig rhyddid a bywyd llawn pwrpas, hapus i'r rhai sy'n ei wasanaethu'n anhunanol (In 8:32)

Rhyddid rhag caethiwed crefyddol, athroniaethau bydol, a rhag bod yn gaeth i'n chwantau cnawdol ein hunain (Rhuf 6:16; 8:5, 6)

Mwynhewch fywyd llawn pwrpas yng ngwasanaeth Jehofah (Rhuf 12:1, 2)

Mae eraill yn ei wasanaethu'n ffyddlon; mi fedrwch chithau hefyd (1Pedr 5:9, 10; crybwyllwch enghreifftiau lleol neu ddefnyddio profiadau *w*91 7/15 23-6)

Mae cynulleidfa fyd-eang Jehofah yn cynnwys cannoedd o filoedd o ieuenctid selog, sydd fel diferion "gwlith" (Salmau 110:3)

MAE DYFODOL GWYCH YN DISGWYL IEUENCTID SY'N DANGOS YMRODDIAD DUWIOLFRYDIG (4 mun.)

Rhowch ffydd yn Jehofah; ymddiriedwch yn ei bobl ymroddedig

Mae Duw wedi addo bywyd tragwyddol; ni all ddweud anwiredd (Tit 1:1, 2)

Rhowch hyder yn ei gyfundrefn weladwy a chydweithiwch â hi

Cefnogwch y cyfarfodydd, ceisiwch gyngor henuriaid (2Tim 2:22)

Pregethwch neges y Deyrnas, a llawenhau calon Duw (Diar 27:11)

Mae dyfodol gwych, heddychlon yn aros ieuenctid uniawn (Salmau 37:37)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)